



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

14 Ionawr 2022

9:00 am – 10:30 am

dros Zoom

Yn bresennol:	Mary Wimbury (Cadeirydd), Ann Woods, Bethan E Jones, Catrin Roberts, Cyng. Cheryl Carlisle, Cyng. Christine Jones, Cyng. Bobby Feeley, Cyng. Llinos Medi Huws (cyrhaeddodd am 9:25 am), Cyng. John Pritchard, Dr Lowri Brown, Ffion Johnstone, Fôn Roberts, Helen Corcoran, Iwan Davies (cyrhaeddodd am 10:00 am), Jenny Williams, Meinir Williams-Jones, Morwena Edwards, Jane Davies (yn mynychu ar ran Neil Ayling), Nicola Stubbins, Shan Lloyd Williams, Sian Tomos, Teresa Owen
Ymddiheuriadau:	Alwyn Jones, Chris Stockport, Delyth Lloyd Williams, Jo Whitehead, Lucy Reid, Neil Ayling, Paul Scott, Rob Smith
Hefyd yn bresennol:	Rob Griffiths, Alder Advice (ar gyfer eitem 2 ar y rhaglen) Craig Macleod, Cadeirydd Penaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru (ar gyfer eitem 2 ar y rhaglen) Catrin Perry, Rheolwr Busnes Rhanbarthol – Comisiynu a'r Gweithlu (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen)

Eitem		Camau Gweithredu
1.	<p><u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u> Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb, a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.</p> <p>Fe wnaeth y cadeirydd hefyd groesawu Iwan Davies, cynrychiolydd Prif Weithredwyr Gogledd Cymru a'r Prif Weithredwr arweiniol ar lechyd a Gofal Cymdeithasol.</p>	
2.	<p><u>Strategaeth Plant a Phobl Ifanc</u> Cyflwynodd RG y fersiwn derfynol o Strategaeth a Chrynodeb Gweithredol Dim Drws Anghywir. Yn dilyn yr argymhelliad a wnaed yng nghyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Tachwedd, cynhaliwyd nifer o ddiwyddiadau gyda phartneriaid yn y byd addysg:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gweithdy gyda chynrychiolwyr o'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd• Gweithdy gyda chynrychiolwyr o ysgolion uwchradd ac addysg drydyddol• Cyfle i gwrdd ag arweinwyr o'r sector addysg	

Roedd y digwyddiadau ymgysylltu uchod yn werthfawr er mwyn cyfrannu at Strategaeth Dim Drws Anghywir a nododd Alder y pwyntiau canlynol:

- Dealltwriaeth well o'r rôl mae darparwyr addysg yn ei chymryd o ran y llwybrau, yn enwedig o ran canfod problemau ac ymateb yn gynnar
- Llawer iawn o ddiddordeb a chefnogaeth i'r model canolfannau canolbwynt, ac ysgolion yn mynegi eu dymuniadau o ran sut i'w rhoi ar waith
- Mae ymyrraeth mewn argyfwng a gwasanaethau lechyd Meddwl hanfodol yn cefnogi'r gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud yn y sector addysg
- Trafod iaith y strategaeth a chyfle i fanylu ac esbonio sut yn union roedd y model yn gweithio
- Cefnogaeth eang i'r strategaeth
- Hyderus y bydd yr holl bartneriaid yn ei defnyddio ac yn bwrw ymlaen i'w rhoi ar waith

Yn dilyn y digwyddiadau, mae adolygiad bellach wedi ei gwblhau o Strategaeth Dim Drws Anghywir, gan ymgorffori'r holl sylwadau ac adborth a gafwyd yn y digwyddiadau. Y Strategaeth Dim Drws Anghywir a gyflwynwyd heddiw yw'r fersiwn derfynol, i gael ei chymeradwyo gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'i rhoi ar waith.

Ymhlith y sylwadau eraill a gafwyd gan aelodau'r Bwrdd:

Roedd y teitl 'Strategaeth yn y gymuned ar gyfer lechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc' yn nodi mwy o strategaeth i drawsnewid GIMPO, ond mae Dim Drws Anghywir yn ehangach, ac yn ymwneud â phlant ag anghenion cymhleth gydag egwyddorion ymyrraeth gynnar, wedi'u darparu mewn partneriaeth. Mae'r rhanbarth ar hyn o bryd yn ymgynghori ac yn cynnal gwaith ymgysylltu gyda phobl ifanc er mwyn sicrhau bod y teitl yn adlewyrchu'r strategaeth.

Roedd RG yn croesawu diweddarau teitl y strategaeth gyda mewnbwn gan bobl ifanc/i gael ei drafod ymhellach gan is-grŵp plant y Bwrdd.

Sylw i'w nodi – Wrth drafod plant a phobl ifanc, mae pobl ifanc bron bob amser yn tueddu i ddod o dan adain Gwasanaethau Oedolion neu Wasanaethau Plant. Mae Strategaeth Dim Drws Anghywir yn cyfeirio at bobl ifanc sy'n defnyddio Gwasanaethau Plant, ac er bod y cyfnod pontio yn ffurfio rhan o strategaeth Dim Drws Anghywir, mae plant diamddiffyn dros 18 oed sydd ddim mewn addysg, a phlant 18-25 oed yn tueddu i fethu â chael y gwasanaethau.

Cytunai RG, ac wrth ystyried yr arfer orau sy'n dod i'r amlwg dros Brydain a thu hwnt, esboniodd fod cydnabyddiaeth y dylid ystyried yr ystod oedran 0-25 mewn strategaethau. Mae angen gwaith hefyd ar alinio gwaith arall â'r strategaeth, ac mae nifer o Awdurdodau Lleol, wrth ystyried y cyfnod pontio, wedi symud at wasanaeth 0-25+ yn hytrach na Gwasanaethau Plant neu Oedolion.

O ran y gwasanaeth lechyd Meddwl, y model sy'n cael ei drafod yn Strategaeth Dim Drws Anghywir yw model Solihull, gan ddilyn yr egwyddor o ganolbwyntio ar y plentyn/person ifanc, sy'n hanfodol er mwyn cael y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir, yn hytrach na chadw at unrhyw ffiniau gweinyddol ffug.

	<p>Roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cytuno y dylid cefnogi fersiwn derfynol Strategaeth a Chrynodeb Gweithredol Dim Drws Anghywir, gan ystyried newid teitl y strategaeth, a gwneir hynny gan is-grŵp Plant y Bwrdd.</p> <p>Bydd is-grŵp plant y Bwrdd hefyd yn gyfrifol am roi Strategaeth Dim Drws Anghywir ar waith a bydd yn paratoi adroddiadau cynnydd i'r Bwrdd yn rheolaidd.</p> <p>Bydd angen i Strategaeth Dim Drws Anghywir fynd drwy broses lywodraethu y 6 Awdurdod Lleol a BIPBC maes o law.</p>	
4.	<p><u>Y wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth</u></p> <p>Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan CP am y trosolwg o Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 a luniwyd fel un o ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cynhelir yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth bob 5 mlynedd, a chyhoeddwyd yr un diwethaf yn 2017. Mae'r Asesiad yn galw ar yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd i asesu'r galw o ran anghenion gofal a chymorth ymhlith eu poblogaeth leol. Bydd dogfen derfynol yr Asesiad yn bwydo i mewn i'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad, sy'n un o ofynion diweddar Llywodraeth Cymru, yn galw ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ystyried a oes digon o gyflenwad sefydlog i gwrdd â'r galw hwnnw. Dyddiad cau dogfen yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yw Mehefin 2022; drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p> <p>Mae gofynion y Cod Ymarfer yn datgan bod angen i'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu, cyfarfod y Cabinet a chyfarfod y Cyngor Llawn ar gyfer ardal pob Awdurdod Lleol a thrwy Fwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol. Bydd dogfen derfynol yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn cael ei chyflwyno i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar 11.3.2022 a chaiff ei chyhoeddi ar wefannau partneriaid erbyn 31.3.2022.</p> <p>Yn gynharach yn 2021, fe wnaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ddirprwyo gwaith ar yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth i Grŵp Llywio'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ar y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol, a oedd yn gyfrifol am gasglu'r ymchwil ar lefel leol ym mhob Awdurdod Lleol a byddai hynny, yn ei dro, yn bwydo i mewn i'r ymateb rhanbarthol. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei lywio gan y grŵp Cell Ddata (dadansoddi data, ymgynghori â staff ac ysgrifennu adroddiadau) a'r grŵp Ymgysylltu (ymgysylltu â'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth).</p> <p>Mae'r Asesiad wedi bod yn enghraifft o gydweithredu ar raddfa enfawr; roedd deall y darpariaethau a oedd eisoes yn eu lle a chasglu'r gofynion ar draws y rhanbarth yn dasg sylweddol, yn enwedig gan gofio bod y rhanbarth hefyd ynghanol pandemig. Cafodd penodau eu gwirio a'u gwerthuso gan grwpiau/cydweithwyr partner drwy gydol y gwaith.</p> <p>Gofynnir i aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru anfon unrhyw sylwadau a materion eraill am yr adroddiad erbyn dydd</p>	

Gwener 21 Ionawr, fel bod yr adroddiad terfynol yn cael ei gylchredeg i bob partner yn ystod yr wythnos yn dechrau 24.1.2022.

Nodwyd hyn gan aelodau'r Bwrdd:

Cynigiwyd y gallai aelodau'r Bwrdd gynnig cymorth gyda chyflenwi data ar gyfer unrhyw ymgynghoriad yn y dyfodol.

Esboniodd CP nad oedd y data a oedd ar gael yn y gorffennol ar gael ar gyfer y gwaith hwn, oherwydd newidiadau yn y ffordd y cesglir data, newidiadau meincnodi a bylchau yn y data cenedlaethol. Er hyn, mae'r gwaith hwn wedi cael ei ategu gan ddarnau eraill o ddata sydd ar gael. Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, bydd log o'r gwersi a ddysgwyd yn cael ei lenwi ar gyfer Llywodraeth Cymru, a fydd yn cynnwys catalog data ynghyd ag asesiad o'r data. Mae map data lleol wedi ei gwblhau, a bydd angen fframwaith cenedlaethol.

Wedi i'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth gael ei gwblhau, ym mhle a phwy fydd yn rhoi'r cynllun gweithredu/canlyniadau ar waith?

Bydd cynllun gweithredu'r Asesiad yn bwydo i mewn i waith yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad, a bydd y gwaith ar sut i fynd i'r afael â'r canlyniadau'n dechrau ar unwaith.

Gan ystyried y darn o waith sylweddol hwn, a yw'n bosib gweld beth sydd wedi newid yn y 5 mlynedd diwethaf, pa feysydd allweddol sydd wedi gwella/heb wella o ran gweithio mewn partneriaeth, er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer newidiadau yn y dyfodol?

Bydd dadansoddiad yn cael ei gwblhau ar yr hyn sydd wedi newid, beth mae hyn yn ei olygu i wasanaethau, a bydd yn cael ei adlewyrchu yn yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad a sgysiau eraill yn ymwneud â chynllunio yn yr ardal leol, ac asesiad lles y rhanbarth.

Mae'r ddogfen yn un sylweddol ei maint - a yw'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol yn cynnig unrhyw ffyrdd o wneud y ddogfen yn hawdd i'w dehongli ac yn ystyrion o rannu cynllunio a symud ymlaen.

Esboniwyd y byddai crynodeb gweithredol a fersiwn hawdd ei ddeall o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ar gael ar y wefan maes o law.

Mae'n ymddangos mai prin yw'r cyfeiriadau at anghenion llety'r boblogaeth, sy'n cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol, yn y ddogfen ddrafft.

Mae'n bryder gweld mai nifer fechan o ymatebion a gafwyd gan breswylwyr a phartneriaid amrywiol yng Ngogledd Cymru.

Esboniodd CP fod y Cod Ymarfer a'r canllawiau'n darparu gwybodaeth ar gyfer y gofynion yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Cynhaliwyd gwaith ymgynghori eang, ac er bod yr amserlen a'r capasiti'n amharu ar y gwaith i raddau, gwnaed yr ymdrech orau i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau mor eang â phosib. Mae'r gwaith asesiad lles yn digwydd yn barhaus a bydd hefyd yn ffurfio rhan o'r gwaith hwn.

Nodwyd pryder am y broses ei hun, y broses ymgynghori a'r gwerth i'r rhanbarth. A oes angen ailedrych ar y canllawiau, a disgwyliadau Llywodraeth Cymru, o ran maint sylweddol y gwaith gan mai Gogledd Cymru yw'r rhanbarth mwyaf yng Nghymru.

	<p><i>Dechreuodd y gwaith ar yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn ystod y pandemig, ac yn ystod y cyfnod hwnnw roedd rhai o'r cydweithwyr priodol i ymgysylltu â nhw yn gwneud gwaith Covid pwysig ac yn ymgysylltu â Darparwyr/Cartrefi Gofal ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dylid llongyfarch y tîm am lunio dogfen sylweddol ar gyfer y rhanbarth. Gan fod yn ymwybodol o'r angen i greu dogfen werthfawr, un o elfennau pwysig y gwaith fydd torri'r wybodaeth yn gynlluniau gweithredu lleol ystyrlon er mwyn cynorthwyo gyda gofynion marchnadoedd y dyfodol. Bydd y gwersi a ddysgwyd hefyd yn cael eu hanfon ymlaen at Lywodraeth Cymru.</i></p> <p><i>Dyweddodd CP fod Grŵp Llywio'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol – Asesiad o Anghenion y Boblogaeth wedi cytuno y byddan nhw'n parhau i gyfarfod fel grŵp sefydlog er mwyn goruchwylio gwaith Cynllun Gweithredu'r Asesiad.</i></p> <p>Bwriad yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yw bod yn ddogfen fyw, llawn gwybodaeth, lle gellir ychwanegu a dileu gwybodaeth, a bydd yn cynorthwyo gyda phrosesau cynllunio yn y dyfodol. Gofynnir i aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru anfon unrhyw sylwadau pellach erbyn dydd Gwener, 21.1.2022.</p> <p>Mae aelodau'r Bwrdd yn cydnabod y gwaith sylweddol a wnaed ar yr Asesiad.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn gytûn y dylid cytuno'n ffurfiol ar adroddiad yr Asesiad. Anfonir adroddiad yr Asesiad ymlaen at y partneriaid statudol, gan ystyried unrhyw sylwadau pellach a gyflwynir erbyn 21.1.2022.</p>	
5.	<p><u>Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</u> Y wybodaeth ddiweddaraf am y brechlyn. Roedd FJ yn cydnabod y cydweithredu arwyddocaol a welwyd gan yr holl bartneriaid er mwyn cyflawni rhaglen frechu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Hyd yma, mae'r rhanbarth wedi brechu 79% o boblogaeth Gogledd Cymru, a gwelwyd galw cynyddol am y brechlyn dros gyfnod y Nadolig. Mae rhai grwpiau'n dal i fod angen eu brechu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Unigolion sydd â Covid, neu sydd wedi cael Covid yn ddiweddar • Unigolion sy'n gaeth i'w cartrefi – mae dros 90% o unigolion sy'n gaeth i'w cartrefi nawr wedi cael eu brechu, mae'r heriau'n parhau oherwydd yr amodau tynn o ran storio brechlynnau Pfizer a Moderna. <p>Dyweddodd TO y gwelwyd gostyngiad yn y niferoedd Covid, er bod cynnydd i'w weld yn y niferoedd profi, olrhain a diogelu. Serch hynny, mae'n anodd rhagweld yr hyn a fydd yn digwydd yn y gymuned, gan fod Llywodraeth Cymru hefyd wedi newid y canllawiau Covid yn ddiweddar. Gwelir llai o alw am brofion PCR hefyd.</p> <p>Lleoliadau gofal sylfaenol ac ysbytai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae heriau staffio'n parhau, gyda derbyniadau ffliw a choronafeirws yn ogystal â chleifion Covid, ac mae'r her fwyaf i'w gweld yn y Dwyrain. • Bydd staff a gafodd eu trosglwyddo i gynorthwyo gyda'r rhaglen frechu'n cael eu trosglwyddo yn ôl i'w swyddi gwreiddiol yn fuan. 	

	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r achosion cyffredinol yn gysylltiedig â'r grŵp oedran 18-44 ac yn ymwneud â'u statws brechu. <p>Dyweddodd NS fod Grŵp Strategol Cynllun Gaeaf Gogledd Cymru nawr wedi dod i ben, a bod y Grŵp Cydlynu Strategol wedi cael ei ailsefydlu, i ganolbwyntio'n bennaf ar effaith a niwed yr amrywiolyn Omicron ar ddarpariaeth gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gwnaeth NS gydnabod y trefniadau rhanbarthol, sy'n gallu ymateb yn gyflym i uwchraddio trefniadau ymateb.</p>	
6.	<p><u>Cofnodion a chymau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf – Rhagfyr 2021</u> Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10.12.2021 yn gofnod cywir a bod pob cam gweithredu wedi ei gyflawni.</p>	
7.	<p><u>Unrhyw Fater Arall</u> Soniodd y Cynghorydd BF am gyfarfod diweddar a gafodd gyda'r Gweinidog, lle'r oedd Awdurdodau Lleol yn cael eu hannog i edrych ar y Gronfa Gofal Integredig er mwyn ariannu'r gwaith i lunio cynlluniau tai â chymorth hirdymor ar gyfer pobl fregus e.e. rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl / camddefnyddio sylweddau sy'n annhebygol o allu byw'n annibynnol, a chynigiodd y dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyllid yn un o gyfarfodydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn y dyfodol.</p> <p>Cam Gweithredu – Cyllid digartrefedd – Rhaglen yn y Dyfodol</p>	RW
	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf: - Dydd Gwener 11 Chwefror 2022</p>	